

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021.

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

05 Tachwedd 2021

RHAN 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phleidleisio drwy ddirprwy mewn is-etholiadau llywodraeth leol penodol a gynhelir rhwng y dyddiad pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym a 28 Mawrth 2022.

1.2 Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, er mwyn ymestyn y ddarpariaeth sy'n rhoi sail ychwanegol i geiswyr wneud cais am bleidleisiau drwy ddirprwyon brys mewn is-etholiadau hyd at 28 Mawrth 2022. Mae'r sail ychwanegol hon yn ymwneud â phersonau nad ydynt yn gallu mynd i orsaf bleidleisio yn bersonol o ganlyniad i gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, cyngor Llywodraeth Cymru neu gyngor ymarferydd meddygol cofrestredig mewn perthynas â'r coronafeirws, yn ogystal â chaniatáu i'r rhai sydd â phleidlais ddirprwy bresennol newid eu dirprwy enwebu os bydd yn rhaid i'r unigolyn enwebedig ynysu.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Rwyf wedi ysgrifennu at y Pwyllgor i ofyn am ystyriaeth gynnar o'r Rheoliadau hyn er mwyn iddynt gael eu trafod ar 9 Tachwedd. Yn amodol ar ewyllys y Senedd byddant yn dod i rym ar 10 Tachwedd 2021, a byddant yn berthnasol i'r holl is-etholiadau perthnasol sy'n digwydd ar ôl y dyddiad hwn.

3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan baragraff 4(2) a 6(7) ac (8) o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mesurau dros dro yw'r Rheoliadau er mwyn ymestyn y ddarpariaeth o bleidlais drwy ddirprwy brys sy'n gymwys pan fo unigolyn yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, cyngor Llywodraeth Cymru neu gyngor ymarferydd meddygol cofrestredig mewn perthynas â'r coronafeirws.

4.2 Mae cyfyngiad amser ar y darpariaethau a byddant yn peidio â chael effaith ar ôl 28 Mawrth 2022.

4.3 Ar hyn o bryd mae cyfraith etholiadol yn darparu ar gyfer senarios lle y gallai fod angen i etholwyr wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy brys oherwydd eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, cyngor Llywodraeth Cymru neu gyngor ymarferydd meddygol cofrestredig mewn perthynas â'r coronafeirws. Fodd bynnag, ni fydd y rheol bresennol yn berthnasol i is-etholiadau sy'n digwydd ar, neu ar ôl, 5 Tachwedd 2021. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am nifer fach o is-etholiadau a drefnwyd ar ôl y dyddiad hwn, ac felly mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru

ymestyn y rheol bresennol ar gyfer is-etholiadau sy'n digwydd yn y dyfodol agos, pan fydd y coronafeirws yn debygol o dal i fod ar led yn ein cymunedau.

Pleidlais drwy ddirprwy i'r rhai sy'n gwarchod eu hunain

4.4 Mae paragraff 4 o Atodlen 4 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 yn gwneud darpariaeth ar gyfer pleidlais absennol mewn etholiad penodol. Mae paragraff 4(2)(a) yn darparu'n benodol y bydd Swyddog Canlyniadau yn cymeradwyo cais i bleidleisio drwy ddirprwy pan fydd wedi'i fodloni y bydd amgylchiadau'r ceisydd ar ddyddiad y bleidlais yn golygu, neu'n debygol o olygu, na ellir disgwyl yn rhesymol i'r ceisydd bleidleisio yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio berthnasol. Byddai amgylchiadau unigolion sy'n hunanyngysu yn berthnasol i'r categori hwn.

4.5 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 56 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001, er mwyn estyn y categorïau o bobl a gaiff wneud cais am ddirprwy brys (i gynnwys unigolion na all bleidleisio yn bersonol gan eu bod yn dilyn deddfwriaeth berthnasol, canllawiau Llywodraeth Cymru neu gyngor meddygol mewn perthynas â'r coronafeirws a hunanyngysu) hyd at 28 Mawrth 2022.

4.6 Newidiadau dros dro yw'r rhain ac ni fyddant ond yn gymwys i etholiadau a gynhelir hyd 28 Mawrth 2022.

5. Ymgynghori

5.1 Oherwydd natur frys y Rheoliadau hyn, ni chynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus cyn i'r Rheoliadau ddod i rym. Fodd bynnag, gofynnwyd am safbwyntiau a'u hystyried ar y set gyntaf o Reoliadau - Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021 - y mae'r offeryn statudol hwn yn ymestyn ei darpariaeth hyd at 28 Mawrth 2022. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cael gwybod am y bwriad i ymestyn y darpariaethau hyn i gefnogi hawliau democrataidd y rhai sy'n dymuno cymryd rhan mewn is-etholiadau llywodraeth leol.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Nid ystyrir y bydd y Rheoliadau hyn yn cael unrhyw effaith ariannol sylweddol, felly ni chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol.